**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

9 Rhagfyr 2022

Annwyl Rebecca,

Newidiadau posibl i Brotocol Proses y Gyllideb

Rwyf wedi ysgrifennu atoch yn y gorffennol ynghylch gwneud newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb (y protocol) ac yn croesawu eich parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor ar y mater hwn.

Er bod y Pwyllgor yn cytuno bod llawer o fanteision i'r protocol, credwn fod angen ei ddiweddaru i adlewyrchu arferion sydd wedi hen ennill eu plwyf a phrofiadau diweddar, yn enwedig y duedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ohirio cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn sgil amseru digwyddiadau ariannol y DU.

Yn unol â pharagraff 41 o'r protocol, mae'r llythyr hwn yn cynnig newidiadau yn y meysydd canlynol:

- ffurfioli gwaith ymgysylltu a chraffu’r Pwyllgor cyn y gyllideb; a
- darparu rhagor o eglurder o ran amseru’r gyllideb ddrafft.

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r cynigion hyn wedi'u cynnwys isod ac mae fersiwn wedi'i thracio o'r newidiadau wedi'i chynnwys fel atodiad i'r llythyr hwn (mae mân newidiadau eraill i ddiweddaru terminoleg o fewn y protocol hefyd wedi'u cynnwys).

## Gwaith craffu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn y Gyllideb

### Ymgysylltu

Ers y cytunwyd ar y protocol yn 2017, mae'r Pwyllgor (a'r pwyllgor a'i rhagflaenodd yn y Bumed Senedd) wedi cyflwyno camau o fewn y calendr seneddol i wella cyfleoedd i graffu ac ymgysylltu mewn perthynas â'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys cynnal gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn nhymor yr haf, sy'n cwmpasu:

- grwpiau ffocws gyda dinasyddion yng Nghymru;
- digwyddiadau i randdeiliaid;
- gweithdai gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru.

Mae'r sesiynau hyn wedyn yn llywio dadl Cyfarfod Llawn flynyddol y Pwyllgor ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru sydd fel arfer yn cael ei chynnal yn ystod wythnos olaf y tymor ym mis Gorffennaf.

Rydym o'r farn bod y rhain yn arferion sefydledig sy'n haeddu cael eu hymgorffori o fewn y protocol ac rydym yn cynnig newidiadau trwy fewnosod paragraff newydd (5A) i gyflawni hyn.

### Sesiynau craffu cyn y gyllideb

Mewn blynyddoedd pan gaiff y broses o gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ei gohirio, mae'r Pwyllgor o'r farn bod cynnal sesiynau tystiolaeth Gweinidogol yn gynnar yn nhymor yr hydref yn fwlch defnyddiol rhwng dadl blaenoriaethau'r Pwyllgor cyn toriad yr haf a'r camau craffu ffurfiol efallai na fyddant yn dechrau tan fis Ionawr y flwyddyn ganlynol. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn o'r fath ym mis Medi ac roedd yr Aelodau yn ystyried ei bod yn ddefnyddiol archwilio sut y byddai'r blaenoriaethau a nodwyd yn ei gwaith ymgysylltu yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac er mwyn deall y cyd-destun o ran pa benderfyniadau yn ymwneud â'r gyllideb sy'n cael eu gwneud.

Er bod y protocol yn rhoi disgresiwn i Bwyllgorau gynnal eu gwaith eu hunain cyn y Gyllideb a chyhoeddi adroddiadau a gohebiaeth ar faterion o'r fath, nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fod yn bresennol mewn sesiynau o'r fath.

O ganlyniad i hynny, mae'r Pwyllgor yn cynnig, mewn blynyddoedd lle ceir oedi cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, y dylai Pwyllgorau ddisgwyl i Weinidogion perthnasol ddarparu tystiolaeth lafar os gofynnir iddynt wneud hynny. Mae paragraff ychwanegol (5B) wedi'i fewnosod yn y protocol i adlewyrchu hyn.

## Amseriad y Gyllideb Ddrafft

Cyhoeddi’r gyllideb ddrafft o fewn amserlen benodedig

Mae'r Pwyllgor o’r farn bod angen gwneud newidiadau i'r protocol er mwyn cryfhau gwaith craffu seneddol mewn blynyddoedd lle mae amseru'r Gyllideb yn cael ei ohirio o'r hyn a ragwelwyd mewn blynyddoedd "arferol". Pan ddaeth y protocol i rym yn 2017, cafodd ei seilio ar ddigwyddiad sylweddol gan Lywodraeth y DU yn y gwanwyn yn hytrach nag yn yr hydref. Mae'r newid gan Lywodraeth y DU yn y blynyddoedd diwethaf i wneud cyhoeddiadau ariannol mawr yn yr hydref wedi achosi heriau sylweddol, i Lywodraeth Cymru o ran cynllunio ariannol ac i waith craffu'r Senedd ar y cynlluniau hyn. Mae hyn wedi arwain at broses ‘arferol’ ar gyfer y gyllideb, â dau gyfnod, ac wyth wythnos lawn o graffu, yn cael ei ddefnyddio ddwywaith yn unig a dim o gwbl yn ystod y Senedd bresennol. Mae'r pedair rownd gyllideb ddilynol wedi cynnwys yr amlinelliad drafft a'r cyllidebau manwl sy'n cael eu cyhoeddi ynghyd â'r wythnosau a ddarperir ar gyfer craffu ar y gyllideb gan gynnwys cyfnod toriad y Nadolig.

Er ein bod yn deall bod angen amser ar Lywodraeth Cymru i asesu'n llawn sut mae ei sefyllfa ariannu yn effeithio ar ei chynlluniau gwariant, yn enwedig pan fo'r safbwynt hwnnw'n ansicr, ni ddylai hyn fod ar draul tryloywder.

Mae’n ofynnol i Lywodraeth yr Alban gyhoeddi ei bil cyllideb dair wythnos ar ôl digwyddiad ariannol y DU. Felly, credwn ei bod yn rhesymol i Lywodraeth Cymru fod yn destun amserlenni tebyg, er ein bod yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd angen uchafswm o bedair wythnos er mwyn rhoi amser i'r dogfennau perthnasol gael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. O ystyried bod hyn yn adlewyrchu amserlen y gyllideb eleni, lle mae'r Gyllideb Ddrafft yn cael ei gosod ychydig llai na phedair wythnos o ddyddiad digwyddiad ariannol Llywodraeth y DU, credwn fod hyn yn rhesymol ac rydym yn awgrymu bod paragraff 12 o'r protocol yn cael ei newid yn unol â hynny.

Cynnwys wythnosau toriad fel rhan o amserlen y gyllideb

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru, yn y blynyddoedd diwethaf, fel arfer wedi amserlennu wyth wythnos ar gyfer craffu ar Gyllideb Ddrafft, sydd wedi cynnwys cyfnod o dair wythnos o doriad y Senedd. Mae hyn wedi rhoi pum wythnos i'r Senedd graffu yn ystod wythnosau eistedd, sydd yn cyd-fynd â'r cyfnod lleiaf mewn blynyddoedd eithriadol a nodir yn y protocol, ond mae wedi effeithio'n sylweddol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a gallu pwyllgorau i gynnal sesiynau tystiolaeth lafar. Yn sgil hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid adlewyrchu'r anawsterau hyn yn y protocol ac y dylid eithrio wythnosau toriad o nifer yr wythnosau sy'n cael eu cyfrif ar gyfer craffu ar y gyllideb.

Mae paragraff 10 o'r protocol yn cydnabod y dylai Llywodraeth Cymru, mewn blynyddoedd 'arferol', gyhoeddi ei chynigion amlinellol a manwl ar gyfer y gyllideb cyn y toriad hanner tymor. Yn ein barn ni, dylid defnyddio egwyddor debyg ar gyfer toriad y Nadolig mewn blynyddoedd pan fydd oedi cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, a bod newidiadau'n cael eu gwneud fel nad yw wythnosau toriad yn cael eu cyfrif fel rhan o'r cyfnod craffu ffurfiol yn amserlen y gyllideb y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 20.4.

## Y camau nesaf

Gobeithio eich bod yn ystyried bod y gwelliannau cymedrol a gynigir yn gymesur, ac rydym yn edrych ymlaen at glywed eich barn arnynt cyn gynted â phosibl fel y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn, ac unrhyw newidiadau a weithredwyd, mewn da bryd cyn rownd gyllideb 2024-25.

Rwyf wedi dweud cyn hyn y dylid gwneud newidiadau i weithdrefnau cyllideb y Senedd mewn modd amhleidiol a dim ond ar ôl dod i gonsensws eang ar y materion hyn y dylid eu cyflwyno. Mae'r Pwyllgor yn ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni gweithdrefnau cadarn, gwydn a thryloyw ac edrychwn ymlaen at barhau i drafod y materion hyn gyda chi.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

ATODIAD A: Protocol Proses y Gyllideb rhwng y ~~Cynulliad~~Senedd a Llywodraeth Cymru

Wedi'i gymeradwyo gan y ~~Cynulliad: 21 Mehefin 2017~~Senedd: I'w gadarnhau

Cyflwyniad

1. Mae'r Protocol yn amlinellu dealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru am y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion cyllidebol cysylltiedig eraill. Er bod y Protocol yn ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru, cytunwyd ar y Protocol drwy benderfyniad y ~~Cynulliad~~Senedd.

2. Bwriad y Protocol hwn yw ategu ~~darpariaethau diwygiedig y~~darpariaethau'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r gweithdrefnau ~~diwygiedig~~ ar gyfer craffu ar y gyllideb yn dilyn datganoli pwerau trethu a benthyca yn Neddf Cymru 2014. ~~Mae'r Protocol yn disodli'r 'Protocol ynghylch newidiadau i gynnig y gyllideb' blaenorol y cytunwyd arno rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru.~~

3. Mae Deddf Cymru 2014 wedi datganoli pwerau trethu a benthyca ~~newydd~~ i Gymru, gan gymhlethu trefniadau cyllido Llywodraeth Cymru ymhellach. Er y bydd angen rhagor o newidiadau ar gyfer proses cyllideb ddeddfwriaethol bosibl, bwriad y Protocol hwn yw galluogi gwaith craffu ar y gyllideb o dan y pwerau ~~newydd~~presennol.

4. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y gwaith o gyflwyno gwybodaeth gyllidebol yn broses sy'n esblygu. Gan gydnabod hyn, ~~mae'r~~mae'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn cytuno i barhau i weithio ~~gyda'i~~gyda'i gilydd i ~~wella'r~~wella'r wybodaeth a ddarperir ~~er mwyn~~ i sicrhau ei bod yn addas at y diben. Mae hyn yn cynnwys effeithiau'r Rhaglen Lywodraethu, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mewn perthynas â gwariant ataliol.

~~Ymgynghoriad ar y gyllideb/strategaeth gyllidebol y Pwyllgor Cyllid~~

Gwaith craffu ac ymgysylltu cyn y Gyllideb

5. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cynnal ei sesiwn strategaeth cyn y gyllideb ei hun cyn yr hydref. Disgwylir y bydd hyn yn trafod ymgysylltu â'r cyhoedd a gwaith craffu strategol tymor hwy. Gallai'r ~~sesiwn~~sesiynau edrych ar strategaeth Llywodraeth Cymru, cyllid a blaenoriaethau at y dyfodol, ac ymgorffori barn rhanddeiliaid, cyn i'r gyllideb gael ei gosod. ~~Ni ddisgwylir y byddgofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth na bod yn bresennol yn y sesiwn hon.~~

Dadl flynyddol ar flaenoriaethau'r gyllideb

5A. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cynnal dadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyllideb cyn toriad yr haf. Nod y ddadl yw rhoi cyfle i Bwyllgorau'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd ddylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â chyllideb Llywodraeth Cymru yn y camau cynnar. Bydd y ddadl yn cael ei llywio gan waith ymgysylltu'r Pwyllgor cyn y gyllideb a bydd

Cadeiryddion pwyllgorau eraill y Senedd yn cael eu hannog i wneud cyfraniadau sy'n adlewyrchu materion o fewn eu priod gylchoedd gwaith.

Craffu cyn y gyllideb

5B. Mewn blynyddoedd lle ceir oedi cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, y disgwyl yw y bydd Llywodraeth Cymru yn bresennol yn sesiynau craffu'r Pwyllgorau cyn y gyllideb, os gofynnir iddynt wneud hynny.

Ymgynghoriad cyhoeddus

6. Bydd y cam strategaeth cyn y gyllideb yn llywio'r ymgynghoriad cyhoeddus y bydd y Pwyllgor Cyllid yn ei gynnal, a hynny ar ran y pwyllgorau polisi sy'n craffu ar y gyllideb ddrafft. Bydd hyn hefyd yn llywio'r cyfarwyddyd y mae'r Pwyllgor Cyllid yn ei roi i'r pwyllgorau polisi ynghylch meysydd penodol o ddiddordeb ar gyfer y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft.

Craffu ar y ~~Gyllideb Ddrafft~~

~~Amseru cyhoeddi'r~~ gyllideb ddrafft

Amseriad cyhoeddi'r gyllideb ddrafft

7. Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ganiatáu o leiaf wyth wythnos "fel arfer" ar gyfer adrodd ar gynigion amlinellol y gyllideb a bod yn rhaid rhoi o leiaf pum wythnos i'r pwyllgorau polisi drafod cynigion manwl y gyllideb.

8. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn cydnabod mewn rhai blynyddoedd, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, ei bod yn bosibl na fydd modd caniatáu wyth wythnos, ac y gallai fod angen hyblygrwydd. Fodd bynnag, ni fydd byth llai na phum wythnos ar gyfer craffu ar gynigion amlinellol a manwl y gyllideb.

9. Os yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld na fydd amser ar gael am wyth wythnos, ~~dylai Ysgrifennydd y Cabinet~~dylai'r Gweinidog â chyfrifoldeb dros gyllid hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, er y cydnabyddir na fydd hyn yn bosibl bob tro.

10. Os yw'r amserlen hon yn cynnwys wythnos o doriad hanner tymor, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chynigion amlinellol a manwl ar gyfer y gyllideb (yn unol â'r Rheolau Sefydlog a'r protocol hwn) cyn cychwyn y toriad. Fel mater o egwyddor, ni ddylid cyfrif wythnosau o doriad fel rhan o'r cyfnod craffu ffurfiol a amlinellir yn amserlen y gyllideb.

11. Yn gyffredinol, ni fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol, byddai enghreifftiau'n cynnwys pan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu ffigurau'r gyllideb ar gyfer y dyfodol; ceir digwyddiad cyllidol y DU fel yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant neu Gyllideb Frys; neu

newid sylweddol yn y rhagolygon cyllidol cyffredinol fel sioc economaidd neu newidiadau'n effeithio ar bolisi treth y DU.

~~12. Disgwylir y bydd Cyllideb y DU fel arfer yn cael ei chyhoeddi wedi i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynigion amlinellol a manwl y gyllideb.~~

12. Mewn amgylchiadau lle ceir ansicrwydd sylweddol o ran y cyllid sydd ar gael yn y flwyddyn ariannol nesaf, gall Llywodraeth Cymru benderfynu oedi cyn cyhoeddi eu cynigion ar gyfer Cyllideb Ddrafft tan ar ôl digwyddiad cyllidol y DU. Mewn amgylchiadau o'r fath, disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft o fewn pedair wythnos ar y mwyaf ar ôl digwyddiad ariannol y DU.

13. Er y bydd gan Lywodraeth Cymru y dewis o gynnig newidiadau i'w chyllideb derfynol, mewn blwyddyn 'arferol' ni ddisgwylir i effaith Cyllideb y DU fod yn berthnasol yng nghyd-destun cyllideb gyffredinol ~~y~~ Llywodraeth Cymru. Felly, ~~mae'r~~mae Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyllid yn cytuno y cedwir uniondeb y broses graffu drwy ystyried unrhyw newidiadau amherthnasol sy'n codi o ganlyniad i Gyllideb y DU yng nghyllideb atodol ddilynol Llywodraeth Cymru.

Cynigion amlinellol y gyllideb ddrafft

14. Bydd cynigion amlinellol y gyllideb ddrafft yn pennu cynlluniau gwariant a chyllido strategol lefel uchel Llywodraeth Cymru.

15. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys o leiaf y canlynol yn ei chynigion amlinellol ar gyfer y gyllideb:

~~I.~~ i. y dyraniadau gwariant arfaethedig i bortffolios y Gweinidogion. Gallai hyn gynnwys dangos sut mae'r dyraniadau hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau a chanlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru;

~~II.~~ii. sut y caiff y cynigion gwariant eu hariannu, fel y symiau o'r grant bloc, trethiant, benthyca, cyllid preifat, cyfryngau dielw ac unrhyw ffynonellau eraill;

~~III.~~ iii. lefel gyffredinol y benthyca cyfalaf a dyled, gan gynnwys amcangyfrif o'r symiau sy'n ddyledus mewn cyfalaf a llog, a'r cyfnod ar gyfer ad-dalu'r symiau.

16. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd y gwaith cyflwyno a chraffu'n newid wrth i broses y gyllideb esblygu. Mae hyn yn galw am ddull hyblyg wrth ystyried y wybodaeth yn y gyllideb a'r wybodaeth sy'n ei chefnogi.

17. Gan gofio hyn, mae'r Pwyllgor Cyllid yn rhagweld y canlynol adeg cyhoeddi'r gyllideb amlinellol:

- y rhesymeg dros lefelau trethiant;
- amrywiaeth o ystadegau a dadansoddiadau economaidd perthnasol ar gyfer Cymru;

- tystiolaeth o sut y mae'r Rhaglen Lywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

18. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i barhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y wybodaeth yn cefnogi gwaith craffu ystyrlon ar gynlluniau gwariant Llywodraeth CymruLlywodraeth Cymru.

19. Bydd adroddiad yn amlinellu'r gwaith craffu a sicrwydd annibynnol mewn perthynas â rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig a sut mae'r fethodoleg yn cael ei gwella yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â chyllideb amlinellol ddrafft Llywodraeth Cymru.

Cynigion manwl y gyllideb ddrafft

20. Yn ei chyllideb ddrafft fanwl, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cynigion y gyllideb ar gyfer pob portffolio ar lefel llinell Gwariant yn y Gyllideb neu gyfwerth ynghyd â naratif ategol priodol.

21. Bydd pob portffolio yn anelu at fod yn gyson a darparu gwybodaeth i gefnogi'r penderfyniadau sy'n sail i'r cynigion. Gallai hyn gynnwys:

- sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â blaenoriaethau a chanlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru;
- asesiadau o effaith y cynigion yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru fel cydraddoldeb, y Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- esboniad o'r newidiadau sylweddol i benawdau'r gyllideb o'r cynlluniau blaenorol a gyhoeddwyd.

22. Ceir cydnabyddiaeth y gall gofynion newid o flwyddyn i flwyddyn, felly caiff pwyllgorau eu hannog i ofyn am wybodaeth berthnasol o'r meysydd portffolio, a fydd yn ymdrechu i'w darparu o fewn yr amserlen y gofynnwyd amdani.

Trafod cynigion y gyllideb ddrafft

23. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn ystyried proses strategol gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu sy'n sail i'r dyraniadau yng nghynigion amlinellol y gyllideb ddrafft, ynghyd â chynlluniau trethu a benthyca o ystyried y sefyllfa o ran cyllid cyhoeddus a'r economi ehangach.

24. Bydd pwyllgorau pwnc yn craffu ar y cynlluniau gwariant manwl ar gyfer y portffolios Gweinidogol perthnasol.

Rôl gyffredinol y Pwyllgor Cyllid

25. O dan y Rheolau Sefydlog, gall y Pwyllgor Cyllid adrodd ar gynigion cyllideb amlinellol Llywodraeth Cymru. Rhaid i unrhyw argymhelliad i newid y symiau a gynigir fod yn niwtral o ran refeniw. Gan gydnabod rôl ehangach y Pwyllgor Cyllid o ran pwerau cyllidol cynyddol Llywodraeth Cymru, gallai argymhellion o'r fath gynnig newidiadau i'r cynigion gwariant ac ariannu. Lle argymhellir newidiadau i gynigion ariannu, rhaid bod y rhain yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydlwyd ar gyfer cytuno ar drethi datganoledig ac yn unol â'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno.

26. O dan y Rheolau Sefydlog, rhaid i bwyllgorau polisi drafod cynigion manwl Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyllideb, a gallant adrodd ar y cynigion hyn os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

27. Os bydd pwyllgor polisi yn argymell cynnydd yng ngwariant portffolio, dylai'r pwyllgor polisi sicrhau bod ei adroddiad yn cynnwys:

- ~~·~~Tystiolaeth gadarn ar gyfer yr argymhelliad/argymhellion;
- ~~·~~Manylion cynhwysfawr yn nodi sut y dylid ~~defnyddio'r~~defnyddio'r cynnydd arfaethedig mewn gwariant;
- ~~·~~Nodi sut y gellid ~~ariannu'r~~ariannu'r cynnydd mewn gwariant.

28. Disgwylir y bydd pwyllgorau polisi yn argymell cynnydd o'r fath mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, a dylai Cadeirydd y pwyllgor polisi perthnasol gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid cyn adrodd o dan yr amgylchiadau hyn.

29. Er mwyn caniatáu cymaint o amser â phosibl ar gyfer gwaith craffu gan y pwyllgorau polisi, nid yw'r Rheolau Sefydlog diwygiedig yn pennu amser yn y broses. Y rheswm am hynny yw caniatáu i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ymdrin ag adroddiad ac argymhellion y pwyllgorau polisi. Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor Cyllid gadw rôl oruchwylio ar waith craffu'r pwyllgorau eraill.~~, a bydd disgwyl iddo gynnal sesiwn cyn trafod y gyllideb derfynol er mwyn adolygu argymhellion y pwyllgorau polisi.~~

## Dadl y ~~gyllideb ddrafft~~Gyllideb Ddrafft

30. O dan y Rheolau Sefydlog, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig i nodi'r gyllideb ddrafft. ~~Gellir defnyddio~~ Bydd unrhyw adroddiadau a gynhyrchir gan y pwyllgorau ar y gyllideb ddrafft yn cael eu defnyddio fel dogfennau ategol ar gyfer dadl y gyllideb ddrafft.

31. Rhaid i unrhyw newidiadau a gynigir i Gynnig y Gyllideb ddrafft gydnabod mai mater i Lywodraeth Cymru drwy broses sefydledig fydd cynnig cyfraddau treth. Bydd gofyn i'r~~Cynulliad~~ Senedd gymeradwyo'r cyfraddau treth, ond ni fydd yn cael y cyfle i newid y cyfraddau, fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog.

32. Bydd y ~~Cynulliad~~Senedd yn gallu gwneud argymhellion mewn perthynas â chyfradd treth incwm Cymru. Fodd bynnag, dim ond y Prif Weinidog neu Weinidogion Cymru a gaiff wneud cynnig ar gyfer penderfyniad cyfradd Cymru, ac ni chaniateir diwygio cynnig o'r fath.

~~Y gyllideb derfynol~~

## Y Gyllideb Derfynol

33. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Er mwyn cefnogi'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i ddarparu ei chyllideb derfynol, ar yr un pryd â gosod y Cynnig Cyllidebol Blynyddol, yn cynnwys cynlluniau gwariant ac unrhyw newidiadau i'r cynlluniau ariannu a gynigir yn y gyllideb amlinellol. Bydd hefyd yn cysoni â newidiadau ar lefel BEL (neu gyfwerth).

## Tryloywder symudiadau ariannol yn y flwyddyn

34. ~~Bydd~~Er mwyn sicrhau tryloywder symudiadau ariannol yn ystod y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ~~parhau i osod~~gosod dwy gyllideb atodol bob blwyddyn~~,~~ (neu fwy mewn blwyddyn 'eithriadol'), yn amodol ar y ddau baragraff canlynol.

35. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi cyllideb atodol yn ystod tymor y~~Cynulliad~~ Senedd cyn toriad yr haf, bydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor cyn toriad yr haf i esbonio pam nad oes angen gwneud hynny ac i ofyn am ymateb y Pwyllgor.

36. Os na fydd cyllideb atodol yn cael ei chyhoeddi tua diwedd y flwyddyn ariannol, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y Pwyllgor cyn diwedd y flwyddyn ariannol i esbonio pam nad oes angen gwneud hynny ac i ofyn am ymateb y Pwyllgor. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor am unrhyw amrywiad rhwng cynlluniau gwariant yn y gyllideb gymeradwy ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn ariannol honno a'r cynlluniau cyllidebol diweddaraf sydd ar gael. Bydd yr adroddiad yn rhoi esboniad o unrhyw drosglwyddiadau sylweddol yn y gyllideb, gan gynnwys manylion am y canlynol:

- trosglwyddiadau rhwng y ~~Prif Grwpiau Gwariant;~~prif grwpiau gwariant;
- trosglwyddiadau mawr yn y ~~Prif Grwpiau Gwariant;~~prif grwpiau gwariant;
- newidiadau i gynlluniau ariannu.

Dogfennaeth y gyllideb ~~sy'n~~sy'n mynd gyda chyllideb atodol

37. Bydd Llywodraeth Cymru yn ~~parhau i ddarparu~~darparu o leiaf yr un lefel o wybodaeth ag sydd yn nogfennaeth y gyllideb a ddaw ynghyd â phob cyllideb atodol fel y darparwyd yn flaenorol, gan gynnwys esboniad o unrhyw drosglwyddiadau sylweddol yn y gyllideb. Bydd y prif ddogfennau sydd

ar gael ynghyd â chynnig y Gyllideb Atodol yn cynnwys Nodyn Esboniadol yn rhoi manylion am y canlynol:

- ~~·~~trosglwyddiadau rhwng y ~~Prif Grwpiau Gwariant;~~prif grwpiau gwariant;
- ~~·~~trosglwyddiadau i/oddi wrth Lywodraeth y DU;
- ~~·~~trosglwyddiadau i/~~o'r Cronfeydd~~o'r cronfeydd wrth ~~Gefn;~~gefn;
- ~~·~~trosglwyddiadau mawr yn y ~~Prif Grwpiau Gwariant;~~prif grwpiau gwariant;
- ~~·~~newidiadau i gynlluniau ariannu.

38. Yn ogystal, ~~yn unol ag arfer blaenorol,~~ bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi tablau gweithredu y ~~Prif Grwpiau Gwariant.~~prif grwpiau gwariant.

## Trefniadau adrodd diwedd y flwyddyn

39. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar alldro terfynol i'r Pwyllgor. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwariant ac ariannu a nodir yng nghyllideb atodol olaf y flwyddyn ac esboniad o'r amrywiadau sylweddol.

## Effaith ar ~~gyrff~~Gyrff a ~~ariennir~~Ariennir yn ~~uniongyrchol~~Uniongyrchol

40. Mae unrhyw newid i'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyrff ~~hyn~~ a ariennir yn uniongyrchol yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig cyllideb atodol. ~~O dan y trefniada diwygiedig, mae hyn yn parhau i fod yn wir gan fod newidiadau i'r cynnig cyllidebol y berthnasol i Lywodraeth Cymru yn unig.~~ Fel y nodwyd ym mharagraff 26, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno ~~cyllidebau atodol yr un mor aml ag o'r blaen. Mae~~o leiaf ddwy gyllideb atodol ym mhob blwyddyn ariannol. Bydd Llywodraeth Cymru ~~felly'n ymrwymo i barhau i gysylltu'n~~yn cysylltu'n rheolaidd ~~â'r~~â'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol ~~a cheisio darparu ar gyfer~~ac i geisio fodloni eu gofynion ariannol ~~yn ystod~~o fewn y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol. Bydd unrhyw gynnig i amrywio pa mor aml y cyflwynir cyllidebau atodol yn ystyried gofynion cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

## Gwelliannau i'r Protocol hwn

41. Gall Llywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Cyllid gynnig gwelliannau i'r protocol hwn.

42. ~~Bydd y~~ Mae'r Pwyllgor Cyllid ~~hefyd yn~~wedi cynnal ymchwiliad yn edrych ar broses cyllideb ddeddfwriaethol i gymryd lle'r cynnig cyllidebol blynyddol, a gallai ~~arwain~~ ystyried~~at~~ rhagor o newidiadau ~~a gynigir~~ i broses y gyllideb.